Adroddiad ar

Addysg Oedolion Cymru ¦ Adult Learning Wales

7 Iard y Cowper
Ffordd Curran
Caerdydd
CF10 5NB

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Addysg Oedolion Cymru ¦ Adult Learning Wales

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Addysg Oedolion Cymru ¦ Adult Learning Wales |
| Awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r darparwr a phartneriaid cyflwyno allweddol | Mae'r darparwr yn bartner cyflwyno neu'n bartner strategol mewn llawer o'r 13 partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru.<br><br>Yn ystod 2024-2025, mae'r darparwr yn cyflwyno neu'n bwriadu cyflwyno cyrsiau mewn lleoliadau ledled Cymru. Mae'r map isod yn dangos lleoliad ei leoliadau dysgu.<br><br> |

| | |
|---|---|
| Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf | Dim newidiadau strwythurol mawr ers yr arolygiad diwethaf. |
| Nifer y dysgwyr adeg yr arolygiad | Roedd 6,872 o ddysgwyr wedi cofrestru adeg yr arolygiad. |
| Nifer y dysgwyr yn y flwyddyn academaidd lawn flaenorol | Yn y flwyddyn academaidd 2023-24, roedd gan y darparwr gyfanswm o 9,668 o ddysgwyr. |
| Manylion am raglenni'r darparwr, o ran cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (SSIE a medrau sylfaenol) ac ystod o gyrsiau eraill (hamdden / adfer costau) | Mae'r darparwr yn cynnig cyrsiau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ledled Cymru ac ystod o ddarpariaeth ar-lein. Roedd cyrsiau a ariennir gan Medr yn cynnwys cyrsiau mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a chyrsiau i ddatblygu cyflogadwyedd dysgwyr.<br><br>Ceir darpariaeth hefyd sy'n cefnogi lles neu flaenoriaethau lleol eraill, gan gynnwys, er enghraifft, cyrsiau sy'n canolbwyntio ar ffyrdd o wella lles; gofal anifeiliaid; yr awyr agored; garddwriaeth; diwylliant, hanes a threftadaeth Gymreig; neu ddysgu teuluol trwy'r celfyddydau creadigol.<br><br>Ceir darpariaeth ar gyfer cymwysterau lefel 2 a 3 i weithwyr ieuenctid a rhaglen addysg undeb llafur. |
| Ynglŷn â'r dysgwyr ar gyrsiau'r darparwr | O ddata'r darparwr ei hun adeg yr arolygiad ar gyfer 2024-2025, roedd 50% o'i ddysgwyr yn dod o aelwydydd incwm isel. Roedd 68% o'i ddysgwyr yn fenywod. Roedd 20% o'i ddysgwyr yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.<br><br>Roedd 4% o'i ddysgwyr yn disgrifio'u hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 28% o siaradwyr Cymraeg (ddim yn rhugl). |

<table>
<tr><td></td><td>Roedd tua 36% o'i ddysgwyr yn 50 oed neu'n hŷn, gyda'r proffil oedran canlynol:
<table>
<tr><th>Oedran</th><th></th></tr>
<tr><td>16-19</td><td>4%</td></tr>
<tr><td>20-24</td><td>7%</td></tr>
<tr><td>25-39</td><td>33%</td></tr>
<tr><td>40-49</td><td>20%</td></tr>
<tr><td>50-59</td><td>15%</td></tr>
<tr><td>60-64</td><td>7%</td></tr>
<tr><td>65 ac yn hŷn</td><td>14%</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>Ynglŷn â'r boblogaeth yn ardal y darparwr</td><td>Mae'r darparwr yn cynnig darpariaeth ledled Cymru, ac felly mae ei ddysgwyr a'i ddarpar ddysgwyr yn dod o broffil poblogaeth lawn Cymru.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)</td><td>31/01/2019</td></tr>
</table>

## Crynodeb

Mae Addysg Oedolion Cymru yn unigryw yng Nghymru, fel coleg addysg bellach dynodedig sydd â chenhadaeth i gyflwyno dysgu oedolion ledled Cymru. Mae gan y sefydliad sylfaen gref o werthoedd, ac mae hyn yn treiddio trwy ei waith. Mae arweinyddiaeth yn effeithiol, ac mae uwch arweinwyr, rheolwyr, athrawon a staff ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth dda o genhadaeth a nodau'r sefydliad.

Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau yn Addysg Oedolion Cymru wedi eu cymell ac yn frwdfrydig, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu, yn dal ati i ganolbwyntio ac yn dyfalbarhau i oresgyn anawsterau. Mae llawer ohonynt yn parhau â'u dysgu ymhellach yn eu hamser eu hunain. Mae llawer o ddysgwyr yn cynyddu eu lefelau hyder, ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'w cymunedau, eu gweithleoedd a'u bywydau ehangach.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr berthnasoedd gwaith da a chynhyrchiol â'u tiwtoriaid, ac maent yn rhagweithiol wrth ofyn am gymorth gan eu tiwtor neu'u cyfoedion, pan fydd ei angen arnynt. Yn gyffredinol, caiff dysgwyr gyfle da i gael gwybodaeth am eu cyrsiau a'r dewisiadau ar gyfer astudio pellach, ond i ddysgwyr ar gyrsiau heb eu hachredu, nid yw cyngor ac arweiniad am y camau nesaf yn ddigon clir.

Mae'r addysgu yn gryf. Mae tiwtoriaid yn meddu ar gymwysterau addas, ac mae ganddynt wybodaeth bynciol dda. Maent yn defnyddio adnoddau a dulliau o ansawdd da sy'n briodol ar gyfer dysgu oedolion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn paratoi ac yn cynllunio gwersi'n effeithiol gyda ffocws clir ar ddysgu, ac yn rhoi adborth defnyddiol i helpu dysgwyr i wella. Mae tiwtoriaid yn defnyddio'u medrau proffesiynol a rhyngbersonol yn sensitif ac yn hyblyg i ddarparu profiadau dysgu pwrpasol a chynhwysol.

Mae gan y darparwr ethos cryf o gymorth ar gyfer lles dysgwyr, i'w galluogi i gymryd rhan mewn profiadau addysgol yn effeithiol. Ceir cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, mewn dosbarthiadau arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyrsiau mwy cyffredinol.

Mae Addysg Oedolion Cymru yn gweithio'n dda gyda phartneriaid ledled Cymru, gan gynnwys llawer o'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'n cynnig ystod eang o ddarpariaeth sy'n cynnwys cydbwysedd da ac yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion, paratoi ar gyfer cyflogaeth a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Hefyd, ceir ystod gymesur a chyfoethog o ddarpariaeth sy'n cefnogi lles dinasyddion neu flaenoriaethau lleol eraill, a darpariaeth neilltuol, fel ei raglen addysg undeb llafur. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi tynnu'n ôl o gynnig darpariaeth wyneb yn wyneb mewn tair sir, a gall dysgwyr neu ddarpar ddysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hyn gael mynediad at ddarpariaeth ar-lein y darparwr yn unig.

Datblygwyd prosesau hunanwerthuso'r darparwr i adlewyrchu ehangder ei bartneriaid, ac mae newidiadau diweddar yn galluogi partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned i ddefnyddio data Addysg Oedolion Cymru ar gyfer eu gwerthuso eu hunain yn symlach. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae'r adroddiad hunanwerthuso yn gorbwysleisio cryfderau ac nid yw'n eglur o ran nodi meysydd i'w gwella.

Dim ond ychydig bach iawn o ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg a geir, ac mae hyn wedi dirywio dros y tair blynedd ddiwethaf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1. Cryfhau'r broses ar gyfer rhannu cyngor ac arweiniad ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau heb eu hachredu fel bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o'r llwybrau dilyniant a'r opsiynau dysgu sy'n agored iddynt

A2. Gwella cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu

A3. Sicrhau bod hunanwerthuso yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir

## Beth sy'n digwydd nesaf

Nid yw'r darparwr mewn categori gweithgarwch dilynol a bydd yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad. Byddwn yn ystyried cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ein hymweliadau rheolaidd gan arolygwyr cyswllt.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau yn Addysg Oedolion Cymru wedi eu cymell ac yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu o'u mannau cychwyn. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd dysgu a gynigir, a'r gweithgareddau ychwanegol a drefnir gan diwtoriaid i gyfoethogi eu profiadau. Maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn mynychu eu dosbarthiadau ar ôl paratoi'n dda amdanynt. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu dysgu ymhellach yn eu hamser eu hunain. Mae llawer o ddysgwyr yn cynyddu eu lefelau hyder, ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gwneud cyfraniadau gwerthfawr at eu cymunedau, eu gweithleoedd a'u cyd-destunau personol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn canolbwyntio'n dda ar eu dysgu, yn dal ati i ganolbwyntio ac yn barod i ddyfalbarhau i oresgyn anawsterau. Maent yn gwrando'n barchus ar ei gilydd ac yn cyfrannu'n feddylgar ac yn adeiladol at drafodaethau dosbarth. Mae bron pob un ohonynt yn gweithio'n dda mewn grwpiau neu mewn parau.

Mewn dosbarthiadau SSIE (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill), mae tiwtoriaid yn fodelau iaith da ac yn datblygu ac ymestyn defnydd dysgwyr o iaith ar draws yr ystod o fedrau llythrennedd yn fedrus. Maent yn defnyddio technegau holi yn effeithiol, gan hyrwyddo cywirdeb ieithyddol a chywiro camgymeriadau yn sensitif, pan fydd angen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr SSIE yn gwneud cynnydd cadarn neu well o'u mannau cychwyn, ac maent yn defnyddio'u medrau iaith newydd i integreiddio o fewn eu cymunedau a dod o hyd i gyflogaeth.

Mae cyrsiau CSIE (Cymraeg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgwyr, sy'n aml yn amlieithog yn barod, i ddysgu Cymraeg, gyda'r nod i ymuno â chyrsiau Cymraeg prif ffrwd. Mae addysgu yn y sesiynau hyn yn hynod effeithiol ac yn meithrin dealltwriaeth o natur ddwyieithog Cymru, ac angerdd amdani, ymhlith dysgwyr.

Mewn cwrs iaith arwyddion, mae'r tiwtor yn cyflwyno'r cwrs yn ddieiriau, gan gyflwyno dysgwyr i eirfa Gymraeg a Saesneg. Mewn ychydig o achosion, mae tiwtoriaid SSIE yn cyflwyno'u dysgwyr i gyfarchion a geirfa sylfaenol ddefnyddiol yn Gymraeg. Fodd bynnag, y tu allan i'r sesiynau hyn, ni chaiff dysgwyr mewn llawer o ddosbarthiadau ar draws y cwricwlwm eu hamlygu i unrhyw gynnwys Cymraeg, ac o ganlyniad, nid ydynt yn defnyddio nac yn datblygu eu medrau Cymraeg.

Mewn dosbarthiadau llythrennedd, mae dysgwyr yn datblygu eu llafaredd yn dda. Maent yn cyfrannu'n ystyrlon at drafodaethau, gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'r pwnc. Maent yn datblygu eu defnydd o gystrawen a chywair yn dda.

Wrth addysgu dosbarthiadau ar-lein, mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn fedrus yn defnyddio technoleg ac addysgeg ar-lein yn fedrus. Maent yn defnyddio'r ffaith fod dysgwyr yn dod o gefndiroedd daearyddol a diwylliannol amrywiol yn fuddiol. Er enghraifft, mae gweithwyr ieuenctid dan hyfforddiant o bob cwr o Gymru yn trafod sut i ymgysylltu â dysgwyr o wahanol gymunedau a sut i ddathlu amrywiaeth a chynhwysiant tra'n gweithredu egwyddorion gwaith ieuenctid gyda phobl ifanc.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn galw gwybodaeth a medrau blaenorol i gof yn dda, ac yn eu cymhwyso i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol. Mewn sesiynau celf a chrefft, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau cyfathrebu a motor yn dda, fel medrusrwydd corfforol wrth wnïo, creu celf neu fodelu addurniadau allan o bâst siwgr. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau cyfathrebu a'u hunan-gred. Mae dysgwyr ar gyrsiau B-Leaf (menter yn y gwaith i oedolion ag anableddau dysgu) yn datblygu eu medrau garddwriaethol a'u medrau bywyd, ac yn gwella'u lles corfforol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr berthnasoedd gwaith da a chynhyrchiol â'u tiwtoriaid ac maent yn rhagweithiol wrth ofyn am gymorth gan eu tiwtor neu'u cyfoedion, pan fydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddysgwyr yn ddigon rhagweithiol yn y dosbarth ac maent yn llai hyderus i ofyn cwestiynau neu ddatrys problemau.

Mae tiwtoriaid yn meddu ar gymwysterau addas, ac mae ganddynt wybodaeth bynciol dda. Maent yn defnyddio adnoddau a dulliau o ansawdd da sy'n briodol ar gyfer dysgu oedolion. Mae ychydig iawn o diwtoriaid wedi mynychu cyrsiau Addysg Oedolion Cymru fel dysgwyr yn y gorffennol, ac wedi dod yn diwtoriaid eu hunain o ganlyniad i hyn. At ei gilydd, mae tiwtoriaid yn sensitif i anghenion dysgwyr fel grwpiau ac yn unigol. Maent yn deall y rhwystrau a'r heriau a allai wynebu eu dysgwyr, ac maent yn hyblyg yn eu dulliau addysgu. Mae tiwtoriaid yn defnyddio'u medrau proffesiynol a rhyngbersonol yn sensitif i ddarparu profiadau dysgu pwrpasol a chynhwysol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw tiwtoriaid yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau digidol sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau personol.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn paratoi a chynllunio gwersi yn effeithiol gyda ffocws clir ar ddysgu. Bron ym mhob sesiwn, mae dysgwyr yn datblygu medrau ehangach. Mewn sesiwn amgylcheddol, mae dysgwyr yn defnyddio medrau datrys problemau yn dda i ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o warchod adnodd naturiol. Mewn cwrs ar gyfer cynrychiolwyr undeb, mae mynychwyr yn caffael gwybodaeth ddefnyddiol am y gyfraith ac yn datblygu medrau eirioli effeithiol, y maent yn eu cymhwyso er budd eu haelodau.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau y maent yn talu cyfraniad at eu cost yn mynychu er mwynhad ac i gymdeithasu, sy’n cefnogi eu lles. Maent yn caffael mwy o wybodaeth am bwnc sydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, mewn sesiwn am archaeoleg angladdol, mae dysgwyr yn archwilio defodau angladd yn y cynfyd, tra bod y dysgwyr mewn dosbarth gwerthfawrogi cerddoriaeth yn gwrando ar ystod eang o gerddoriaeth glasurol a modern, yn ei dehongli a’i thrafod.

Bron ym mhob cwrs, mae tiwtoriaid yn darparu adborth llafar adeiladol a di-oed i ddysgwyr am eu gwaith a’u cynnydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn rhoi adborth ysgrifenedig, sy’n helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu gwaith a sut i wella. Mae bron pob un o’r tiwtoriaid yn cadw cofnodion cyfoes, yn dogfennu cynnydd dysgwyr unigol ac yn llenwi proffiliau grŵp. Mewn sesiynau ymarferol, mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddogfennu eu gwaith, er enghraifft mewn ffotograffau, ac maent yn cynorthwyo dysgwyr i gwblhau asesiadau, lle bo’n briodol. Mewn medrau hanfodol, mae tiwtoriaid yn defnyddio asesiadau cychwynnol Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) yn effeithiol i fesur lefelau llythrennedd a rhifedd dysgwyr.

Data cyhoeddedig diweddaraf y darparwr yw Adroddiad Deilliannau Dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2023. Mae hyn yn dangos bod dysgwyr yn y darparwr wedi cwblhau eu cyrsiau a’u cymwysterau yn llwyddiannus, ar gyfradd o 86%, sydd ychydig yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y sector, sef 84%.

I wella addysgu a dysgu ymhellach, dylai’r darparwr ganolbwyntio ar y canlynol:

- gwella cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio’r Gymraeg yn eu dysgu

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

I lawer o ddysgwyr, mae eu cwrs yn weithgaredd cymdeithasol pwysig, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a’u lles. Er enghraifft, mae dysgwyr gwerthfawrogi cerddoriaeth, sydd i gyd wedi ymddeol ac ychydig ohonynt yn byw ar eu pen eu hunain, yn gweld bod mynychu’r rhaglen ddysgu hon yn atal ynysigrwydd cymdeithasol ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt, gan ddarparu gweithgarwch dyrchafol a rhyngweithio cymdeithasol, yn ogystal â datblygu eu dealltwriaeth o gerddoriaeth.

Mae tiwtoriaid yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar, gofalgar a diogel. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda, yn ymwybodol o anghenion a sefyllfaoedd personol dysgwyr, ac yn darparu cymorth angenrheidiol. Mae llawer o diwtoriaid yn gwahaniaethu’n effeithiol, yn addasu eu sesiynau ac yn cyflwyno arddulliau i ddiwallu anghenion eu dysgwyr.

Mae gan bron bob un o'r dysgwyr berthnasoedd cadarnhaol a pharchus â'u tiwtor a'u cyfoedion. Caiff dysgwyr eu hannog a'u cynorthwyo i gymryd rhan a chyfrannu yn y dosbarth, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn llawn ac yn frwdfrydig. Mae dysgwyr yn mynegi boddhad â'r modd y mae cyrsiau'n eu helpu i dyfu, magu hyder a datblygu medrau.

Mae dysgwyr yn cynorthwyo'i gilydd yn dda. Maent yn gwrando ac yn rhannu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau. Mae dysgwyr yn mynegi ymdeimlad cryf o berthyn a chysylltiad â chyd-ddysgwyr.

Mae gan y darparwr ethos cryf o gymorth ar gyfer lles dysgwyr, i'w galluogi i gymryd rhan mewn profiadau addysgol yn effeithiol. Mae cynhaliaeth gref o bolisïau corfforaethol, gweithdrefnau, gwasanaeth cwnsela, swydd swyddog lles a hyfforddiant staff defnyddiol, yn sail i hyn. Caiff cymorth ar gyfer dysgwyr ei ymestyn gan waith partneriaeth arloesol, er enghraifft gyda darparwr gofal anheddol preifat a sefydliadau cenedlaethol fel y Gymdeithas Strôc a Mind.

Mae tiwtoriaid a rheolwyr yn monitro presenoldeb a chynnydd dysgwyr yn rheolaidd ac yn rhoi cymorth ar waith ar gyfer dysgwyr, pan fydd angen, gan eu cyfeirio at asiantaethau allanol, lle bo'n briodol. Mae'r darparwr wedi cyflwyno ap tiwtor yn ddiweddar iawn, sy'n rhoi mynediad di-oed i diwtoriaid at wybodaeth am anghenion dysgwyr. Mae rheolwyr yn ymgynghori'n rheolaidd â dysgwyr ac yn gweithredu ar faterion y maent yn eu codi.

Mae'r cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryf, mewn dosbarthiadau arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac mewn cyrsiau mwy cyffredinol. Mae'r cymorth hwn yn helpu dysgwyr i lwyddo mewn addysg, ac yn gwella bywyd dysgwyr a'u teuluoedd mewn modd cadarnhaol.

### Ciplun ar gerddoriaeth ar gyfer cyfathrebu i ddysgwyr ag anawsterau dysgu dwys

Yn y prosiect ysbrydoledig hwn, mewn partneriaeth ag Emerge, sef elusen cerddoriaeth a'r celfyddydau, mae grŵp mawr o ddysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a namau corfforol yn ymuno â'u gofalwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau canu. Mae'r tiwtor yn ymgysylltu â'r grŵp gyda chaneuon byddarol, ac mae dysgwyr yn ymuno gyda chymorth meicroffonau ac offerynnau taro synhwyraidd estynedig.

Mae ail diwtor yn defnyddio delweddau gweledol i symbylu dysgwyr i nodi eitemau bob dydd ac mae gofalwyr yn defnyddio iaith arwyddion i helpu dysgwyr i wella'u medrau cyfathrebu. Mae dysgwyr yn ymuno'n frwdfrydig, yn ôl eu gallu eu hunain. Maent yn dangos pleser mewn gweld dysgwyr eraill ac yn datblygu eu medrau cyfathrebu. Caiff y grŵp hwn ei ddisgrifio gan ei gyfranogwyr fel 'achubwr bywyd' ac yn 'llawn llawenydd', ac i rai, hwn yw'r unig weithgarwch sydd ar gael iddynt y tu allan i'w cartrefi eu hunain.

Ceir amrywiaeth eang o gymorth effeithiol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn y dosbarth. Gwahoddir dysgwyr i ddatgelu anghenion adeg cofrestru, ac fe gaiff y wybodaeth hon ei rhoi i diwtoriaid sydd wedi cael hyfforddiant mewn arfer sy'n ystyriol o drawma, dyslecsia, ADHD ac awtistiaeth, er enghraifft. Mae gan y darparwr gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a thri swyddog anghenion dysgu ychwanegol sy'n rhoi cymorth i diwtoriaid a dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn cadw nodyn o 'sbardunau' posibl ar gyfer dysgwyr ac yn creu portread ysgrifenedig byr os yw dysgwyr yn datgelu anghenion penodol yn ystod cwrs.

Mae ychydig o diwtoriaid yn defnyddio adnoddau ffisegol i gefnogi anghenion dysgwyr, fel cymhorthion dyslecsia, cymhorthion ffidlan, a pheli straen. Ar gyfer dosbarthiadau ar-lein, ceir ystod o addasiadau electronig sy'n cynorthwyo dysgwyr, er enghraifft i newid maint ffont, lliw cefndir, ffontiau dyslecsia a negeseuon llais. Wrth ymateb i ymgynghori â dysgwyr ag ADHD, mae'r darparwr wedi cyflwyno crysau-T ar gyfer tiwtoriaid, ffedogau ac arwyddion drws arbennig i oresgyn gorbryderon dysgwyr am ymwneud â sefyllfaoedd newydd. Mae cymorth ymarferol arall ar gyfer dysgwyr yn cynnwys benthyca offer TG a chyllid i helpu â chludiant i'r dosbarth.

### Ciplun ar gwrs coginio i ddynion

Mewn amgylchedd cymdeithasol a chefnogol, mae grŵp o ddynion sydd wedi ymddeol, y mae'r mwyafrif ohonynt yn byw ar eu pen eu hunain, a llawer sydd wedi cael profedigaeth, yn mynychu cwrs coginio wythnosol yn eu canolfan gymunedol leol. Ceir y cynhwysion o bantri bwyd cymorthdaledig ar y safle, ac mae tiwtor yn cynorthwyo'r dosbarth i benderfynu beth fyddant yn ei goginio. Mae hyn yn gofyn i ddysgwyr fod yn greadigol i ymateb i'r cynhwysion sydd ar gael ar y diwrnod. O ganlyniad, mae dysgwyr yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dealltwriaeth o sut i gyfuno cynhwysion, a gallant drosglwyddo'r medrau hyn i gynllunio prydau bwyd gartref. Mae dysgwyr wedi gallu defnyddio'u medrau i goginio gyda'u plant a'u hwyrion, ac ar eu cyfer, hefyd.

Mae gwefan y darparwr yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gyrsiau a chymorth. Mae dysgwyr ar gyrsiau achrededig ffurfiol yn glir am eu nodau cymhwyster a gallant gael cyngor am ddilyniant. Fodd bynnag, yn enwedig ar gyrsiau heb eu hachredu, dywed dysgwyr eu bod yn ansicr am eu camau nesaf mewn dysgu, a ph'un a fydd eu cwrs yn parhau. I'r dysgwyr hyn, nid yw cyngor ac arweiniad am y camau nesaf yn ddigon clir.

Mae gan Addysg Oedolion Cymru ddiwylliant diogelu rhagweithiol sy'n pwysleisio rôl fugeiliol yn ogystal â rôl addysgol tiwtoriaid a'r sefydliad. Mae uwch arweinwyr yn goruchwylio ac yn sicrhau ansawdd arferion diogelu yn briodol ac yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol yn cael eu cyfleu yn effeithiol i staff a dysgwyr. Caiff staff hyfforddiant rheolaidd a gwerthfawr mewn materion diogelu, gan gynnwys sut i fynd i'r afael â gwahaniaethu a radicaleiddio. Mae prosesau recriwtio ac atgyfeirio staff yn gadarn,

ac mae uwch reolwyr yn rhannu gwybodaeth am ddiogelu yn briodol gyda phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

I wella ymhellach, dylai'r darparwr ganolbwyntio ar:

- gryfhau'r broses ar gyfer rhannu cyngor ac arweiniad gyda dysgwyr ar gyrsiau heb eu hachredu fel bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o'r llwybrau dilyniant a'r opsiynau dysgu sy'n agored iddynt

## Arwain a gwella

Mae Addysg Oedolion Cymru yn unigryw yng Nghymru, fel coleg addysg bellach dynodedig sydd â chenhadaeth i gyflwyno dysgu oedolion ledled Cymru. Mae gan y sefydliad sylfaen gref o werthoedd ac mae hyn yn treiddio trwy ei waith. Mae rheolwyr, athrawon a staff ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth dda o genhadaeth a nodau'r sefydliad.

Mae'r prif weithredwr a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth effeithiol, ac mae gan y sefydliad ddiwylliant arweinyddiaeth ddosbarthedig a chydweithredol. Mae'r cyngor llywodraethu yn ymgysylltu ac yn cymryd rôl weithredol mewn goruchwylio'r darparwr a'i waith. Mae'r cynllun strategol ar gyfer 2023-2026 yn ddogfen ddefnyddiol ac yn amlinellu amcanion strategol a thargedau'r darparwr yn glir.

Mae'r darparwr yn gweithio ledled Cymru ac mae ganddo weithlu a thîm arweinyddiaeth sydd ar wasgar yn ddaearyddol. Cefnogir yr uwch dîm rheoli yn dda gan dimau gwasanaethau canolog, tri rheolwr rhanbarthol a thimau ansawdd, a chydlynwyr datblygu'r cwricwlwm sy'n gweithio ar lefel leol i gynllunio a chydlynu darpariaeth a gwaith partneriaeth. Mae rheolwyr canol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda, ac mae ystod o grwpiau gweithredol yn cydlynu gwaith y darparwr yn effeithiol.

Yn yr u modd ag unrhyw sefydliad sydd ar wasgar, mae'r darparwr yn wynebu heriau wrth sicrhau cyfathrebu effeithiol ymhlith ei staff a sicrhau bod pob un o'i staff yn teimlo'u bod wedi cysylltu. Mae arweinwyr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwella'i systemau i rannu gwybodaeth, galluogi cydweithio a gwella ymglymiad staff ar bob lefel, ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Mae gan y darparwr ystod eang iawn o bartneriaid ac ethos cryf o waith partneriaeth. Er enghraifft, mae Addysg Oedolion Cymru yn bartner cyflwyno gweithredol mewn llawer o'r 13 partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru, lle mae'n cyflwyno cyrsiau mewn lleoliadau cymunedol ac yn gweithio'n bwrpasol i gefnogi'r partneriaethau. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi tynnu'n ôl o gynnig darpariaeth wyneb yn

wyneb mewn tair sir oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, her gweithio mewn partneriaeth yn yr ardaloedd hyn, a nifer isel o ddysgwyr. O ganlyniad, gall dysgwyr neu ddarpar ddysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hyn gael mynediad at ddarpariaeth ar-lein Addysg Oedolion Cymru yn unig, ynghyd ag unrhyw ddarpariaeth arall a gyflwynir gan sefydliadau eraill yn lleol.

Wrth gynllunio darpariaeth a rheoli adnoddau ariannol, mae uwch arweinwyr yn gofalu eu bod yn gwario cyllid yn strategol ac yn bwrpasol, gan fod yn ystyriol o'r effaith ar ddysgwyr. Mae cynllunio'r ddarpariaeth yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda, yn gwneud defnydd da o ddeallusrwydd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a gwybodaeth leol, ac yn ystyried yr angen i osgoi dyblygu darpariaeth a gynigir gan ddarparwyr lleol eraill.

Ceir ystod eang o ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys cydbwysedd da ac yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion, paratoi ar gyfer cyflogaeth a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Hefyd, ceir ystod gymesur a chyfoethog o ddarpariaeth sy'n cefnogi lles dinasyddion neu flaenoriaethau lleol eraill, gan gynnwys, er enghraifft, cwrs sy'n canolbwyntio ar ffyrdd o wella lles; cyrsiau mewn diwylliant, hanes a threftadaeth Gymreig; gofal anifeiliaid; yr awyr agored neu arddwriaeth; neu gyrsiau dysgu teuluol yn y celfyddydau creadigol. Hefyd, ceir ystod o ddarpariaeth werthfawr, na chaiff ei chynnig yn aml mewn lleoedd eraill, gan gynnwys cymwysterau lefel 2 a 3 ar gyfer gweithwyr ieuenctid a rhaglen addysg undeb llafur.

Ceir ychydig bach iawn o ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Mae'r gyfran o 'ddarpariaeth B3' (lle defnyddir ychydig bach o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg) wedi dirywio dros y tair blynedd ddiwethaf.

Ceir cydbwysedd priodol rhwng cyflwyno wyneb yn wyneb a chyflwyno ar-lein, gyda phwyslais gwerthfawr ar ddarpariaeth wyneb yn wyneb, lle bo modd. Pan gaiff cyrsiau eu cyflwyno ar-lein, mae'r dewis o ran pa gyrsiau i'w cynnig yn y fformat hwn wedi cael ei wneud yn ofalus i gyd-fynd â'r galw ac anghenion dysgwyr. Yn aml, mae'r cyrsiau hyn ar gyfer dysgwyr sy'n gallu astudio'n annibynnol neu ble mae fformat ar-lein yn galluogi dysgwyr o bob cwr o Gymru i ymuno â rhaglenni gyda chyn lleied o deithio ag y bo modd. Cynigir darpariaeth fel y rhaglen sgiliau hanfodol hyblyg ar-lein, gan alluogi dysgwyr i gymryd rhan o ardaloedd lle gallai cynnal cwrs wyneb yn wyneb fod yn anhyfyw. Mae'r darparwr yn defnyddio'i gysylltiadau cenedlaethol i gynnig rhaglenni, na all partneriaethau lleol eu cynnig, efallai.

Mae lleoliadau dysgu wedi eu lleoli'n dda yn eu cymunedau ac yn gwneud defnydd da o leoliadau cymunedol. Maent yn hygyrch ac wedi'u cyfarparu'n dda, gydag offer a chyfleusterau dysgu addas. Mae'r darparwr wedi dyrannu ei adnoddau'n dda i sicrhau bod darpariaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliadau addas ar gael.

Datblygwyd prosesau hunanwerthuso’r darparwr i adlewyrchu ehangder ei bartneriaid trwy ymgorffori adborth a gafwyd gan randdeiliaid. Mae newidiadau diweddar yn galluogi partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned i ddefnyddio data Addysg Oedolion Cymru ar gyfer eu gwerthuso eu hunain yn symlach. Fodd bynnag, o bryd i’w gilydd, mae’r adroddiad hunanwerthuso yn gorbwysleisio cryfderau ac nid yw’n eglur o ran nodi meysydd i’w gwella.

Mae cynllun datblygu ansawdd yn adlewyrchu’r meysydd i’w gwella a nodwyd yn adroddiad hunanwerthuso’r darparwr ac mae systemau ar waith i olrhain cynnydd. Mae rheolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth addas o flaenoriaethau sefydliadol a’u rôl mewn ysgogi’r camau gweithredu a bennwyd iddynt.

Mae’r darparwr wedi cael dechrau gwerthfawr o ran gwerthuso’r graddau y mae dysgwyr yn symud i mewn i’w ddarpariaeth, oddi mewn iddi, a thu hwnt.

### Ciplun ar ddefnyddio data i ddadansoddi cyfraddau dilyniant

Prin yw’r partneriaethau neu’r darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned sy’n defnyddio’r data sydd ganddynt am ddysgwyr i ddadansoddi sut mae dysgwyr yn symud i mewn i’w darpariaeth, oddi mewn iddi, a thu hwnt, ac nid oes unrhyw ddata meincnodi cenedlaethol i bartneriaethau neu ddarparwyr gymharu eu hunain yn ei erbyn. O ganlyniad, nid ydym yn gwybod beth yw’r effaith hirdymor y mae cyfranogi mewn dysgu oedolion yn ei chael ar ddatblygiad academaidd dysgwyr neu’u cynnydd tuag at y farchnad swyddi neu ddysgu ar lefel uwch. Mae Addysg Oedolion Cymru yn dechrau defnyddio’i ddata ei hun i ddadansoddi sut mae dysgwyr yn cofrestru, yn ailgofrestru ac yn gwneud cynnydd trwy ei chyrsiau.

Dros y tair blynedd 2022-2023, 2023-2024 a 2024-2025, nid oedd rhwng 52% a 63% o ddysgwyr sy’n cofrestru bob blwyddyn wedi cofrestru ar gwrs AOC o’r blaen (h.y. roeddent yn ddysgwyr ‘newydd’).

Roedd rhwng 25% a 36% o ddysgwyr bob blwyddyn yn ddysgwyr yn dychwelyd a oedd wedi cofrestru ar gwrs yn y flwyddyn academaidd flaenorol. O’r rhain, ar gyfartaledd, roedd 49% wedi cofrestru ar gwrs y flwyddyn ddilynol ar yr un lefel, 19% ar lefel is a 32% ar lefel uwch.

Mae’r darparwr yn cynnal arsylwadau dysgu yn rhan o’i gylch ansawdd. Darperir adborth manwl i diwtoriaid sydd wedyn yn cael cyfle i fyfyrio ar eu harfer, a rhennir arfer dda mewn digwyddiadau hyfforddi staff. Fodd bynnag, nid yw meysydd i’w gwella a nodwyd yn ystod yr arsylwadau hyn yn fynych yn rhoi gwybodaeth fanwl am y gwelliannau y gallai’r tiwtor eu gwneud i’w haddysgu. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn cael darlun cyffredinol o ble y gellir gwella arferion tiwtoriaid, i lywio gweithgareddau dysgu proffesiynol.

Mae gan y sefydliad ymrwymiad cryf i fod yn sefydliad dysgu, ac at ei gilydd, mae dysgu proffesiynol yn gwella ansawdd yn effeithiol. Mae llawer o ddysgu proffesiynol yn digwydd trwy ddigwyddiadau ar-lein, sy'n galluogi'r gweithlu gwasgaredig i gymryd rhan yn dda. Caiff tiwtoriaid rhan-amser a delir fesul awr eu talu i fynychu digwyddiadau dysgu proffesiynol. Mae'r darparwr yn ymatebol i geisiadau tiwtoriaid. Er enghraifft, fel rhan o ddatblygu diwylliant gwrth-hiliol, gofynnodd tiwtoriaid am hyfforddiant ar sut i ddelio â hiliaeth. Cysylltodd y darparwr â'r Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Dduon, ac o ganlyniad, rhoddodd hyfforddiant mewn 'codi llais yn weithredol dros bobl eraill' ar waith yn ystod wythnos dysgu a datblygu.

I wella ymhellach, dylai arweinwyr ganolbwyntio ar:

- gynyddu'r ychydig bach o ddarpariaeth a gynigir yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg
- sicrhau bod hunanwerthuso yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir
- sicrhau bod arsylwadau dysgu yn nodi'n glir sut gall athrawon wella'u harfer addysgu
- archwilio cyfleoedd i gynnig darpariaeth wyneb yn wyneb ym mhob un o ranbarthau Cymru

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i staff
- yn adolygu data ar berfformiad cyhoeddedig y darparwr

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y darparwr, swyddogion yr awdurdodau lleol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn arsylwi sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2025